CYFARFOD Y CYNGOR BRO - COFNODION

Dydd Mawrth 28ain Ionawr 2025 – 6:30yh

Festri Rhos Y Gâd, Llanfairpwll

Presennol:

Ward Braint		**Ward Gwyngyll**
Stephen Edwards (Cadeirydd)		Gareth Cemlyn Jones
Wil Chidley		Gwynfor Parry
Alun Jones		John Roberts
		Medwyn Roberts
		Meirion Jones
Cynghorwyr Sirol:		
Clerc:	Gillian Morris	

1.0	**Ymddiheuriadau**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Ifor Gruffydd. **Cynghorwyr Sirol** - Dyfed Jones, Robin Williams, Sonia Williams.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**		
3.0	**Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**	**Gweithredu**	**Erbyn**
3.1	**Cyngor Bro** • Aseisad Risg – GCJ wedi ei gwblhau, dogfen i gael ei gylchredeg I'r aelodau. • Hyfforddiant – Rhaid i bawb gael hyfforddiant statudol. Hyfforddiant arbennig i IW. • Arwydd Gorsaf Drennau – IG yn cyfarthrebu gyda Trafnidiaeth i Gymru. • Cynllun Gweithredu – Prif amcanion Y Cyngor ar gyfer 2025/2026.	Clerc	Ionawr 2025
3.2	**Amgylchedd ac Eiddo** • Llys Eilian, Ffordd Penmynydd. • Cytundebau angen sylw: Y Gorlan, Clwb Snwcer, Clwb Bowlio, Cymdeithas Chwaraeon • Fynwent Newydd – Disgwyl ymateb gan Dylan Edwards CSYM. • Giat ger mynedfa y Rhandiroedd angen sylw.	SE Clerc	MFAPH MFAPH
3.3	**Cyllid**	Clerc	MFAPH

	• Benthyciad Clwb Bowlio • Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill.		
3.4	**Neuadd Goffa** • Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y cytuneb. • Polisiau • Cynllun Busnes • Clerc wedi derbyn tystysgrif Cwblhau gan DEWIS.	Clerc	MFAPH
3.5	**Y Fynwent** • Dwy sedd wag ar gael ar bwyllgor Y Fynwent, RMJ a SE yn fodlon cymeryd y seddi dros dro.		
4.0	**Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**.	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Cynghorwyr Sir - • Cais Y Garnedd- Wedi cael cyfarfod cychwynol hefo'r Datblygwyr, Clwyd Alyn a'r Contractwr, DU Construction. Mae'n debyg y bydd y Cyngor Bro yn cael cyswllt uniongyrchol yn enwedig ynghylch y bibell dwr wyneb fydd o bosib angen croesi Maes Eilian. • Arian o ddatblygiad Llys Eilian yn gobeithio cael ei dalu yn y flwyddyn ariannol 2024/2025. • Llwybr beics a Cerdded A5 – Gwaith ymchwilio tir yn cael ei wneud wythnos yma ar yr A5 wrth Llys Merddyn Mae'r gwaith yn gysylltiedig gyda'r cynllun gwella llwybr cerdded/beicio rhwng Lôn Graig a Lôn Refail, lle mae'r gwaith dylunio manwl a thrafodaethau gyda tir feddiannwyr yn parhau gyda'r gobaith o fod mewn sefyllfa i ystyried gwneud cais am arian grant i adeiladu ym mlwyddyn ariannol 2026/27. • Gwaith Lliniaru Llifogydd -Llawer o'r gwaith ymchwil a syrfeo wedi ei gwblhau. Swyddogion y Cyngor Sir a'r Contractwr yn cynnal gweithdy wythnos yma, bydd ymgysylltu pellach yn digwydd hefo'r gymuned. • Cynnig cyllideb 2025-26 – Trafodaethau Fforwm Gyswllt – Adroddiad wedi ei dderbyn. Un Llais – Adroddiad wedi ei dderbyn, GCJ yn holi os oedd gan unrywun ddiddordeb i fod yn rhan or Fforwm Iaith i gysyllu.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 03.12.2024**	**Gweithredu**	**Erbyn**

5.1	Stephen Edwards yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, John Roberts yn eilio.		
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyllid 23.01.2025**	**Gweithredu**	**Erbyn**
6.1	Gareth Cemlyn Jones yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, Wil Chidley yn eilio.		
7.0	**Cyfrifon a Thaliadau Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025**		
7.1	• Awdurdodwyd i wneud y taliadau.		
8.0	**Ceisiadau Cynllunio**	**Gweithredu**	**Erbyn**
8.1	8 Caeau Penrallt, Llanfairpwll - Cais Cynllunio: FPL/2025/7		
8.2	Fairways Newydd, Llanfairpwll - Cais Cynllunio: FPL/2024/251 • Clerc i gysylltu gyda CSYM ynglyn a cael cyfle i ymateb ynglyn a'r niferoedd o ystafelloedd yn y cais newydd.	Clerc	
8.3	Siglan Bach, Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Cais Cynllunio: FPL/2024/251 • Clerc i gysylltu gyda CSYM ynglyn a cael cyfle i ymateb gan fod y cais ddim yn gyflawn.	Clerc	
9.0	**Penderfyniadau Cynllunio**	**Gweithredu**	**Erbyn**
9.1	19 Cil Y Graig, Llanfairpwll – Caniatau		
9.2	25 Carreg Y Gad, Llanfairpwll – Wedi ei dynnu'n ôl.		
9.3	Pendinas, Lôn Pant, Llanfairpwll - Caniatau		
10.0	**Trafod**	**Gweithredu**	**Erbyn**
10.1	**Cyllid** • Trafodwyd y cyllid ac y preasept ar ol y cyfarfod cyllid. Fe oedd dau ddewis o ran y cais preasept sef: **A – 63%** **B - 70%** Pleidleisiwyd 2 ar gyfer cais A ac 7 ar gyfer cais B. GCJ a'r Clerc i ddrafftio llythyr i gael ei yrru gyda'r ffurflen i CSYM.	Clerc/GCJ	31/02/2025
10.2	**Cytundebau** • Grwp wedi adolygu y cytundebau, cynghorwyr yn hapus i yrru y cytundebau i'r sefydliadau.	Clerc	MFAPH
10.3	**Seddi Gwag** • 2 sedd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.		
	Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6.30yh ar 25ain Chwefror 2025		
	**** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU ****		